Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Cynddelw**
**Glynceiriog**
**New Road**
**Glynceiriog**
**Wrecsam**
**LL20 7HH**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/04/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Cynddelw yn ysgol gymunedol ym mhentref Glyn Ceiriog ger Llangollen. Ym Medi 2012, fe wnaeth Ysgol Cynddelw ffedereiddio â dwy ysgol arall yng Nglyn Ceiriog. Mae pum dosbarth oedran cymysg, sy'n cynnwys meithrinfa ran-amser. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae dau ddosbarth lle mae disgyblion yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ac un dosbarth lle mae disgyblion yn cael eu haddysgu yn Saesneg yn bennaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dau ddosbarth oedran cymysg. Mewn un dosbarth, mae'r addysgu yn Saesneg ac yn y llall, mae'r addysgu yn Gymraeg yn bennaf.

Mae 104 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tuag 11% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol hefyd. Y Gymraeg yw prif iaith y cartref i oddeutu 10% o ddisgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol neu sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol ym Mawrth 2010. Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym Medi 2005 a daeth yn bennaeth yr ysgolion wedi'u ffedereiddio yn 2012.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol yn Ysgol Cynddelw yn 2015-2016 yw £4,238 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Wrecsam yw £8,199 a'r isafswm yw £2,778. Mae Ysgol Cynddelw yn yr wythfed safle o'r 60 ysgol gynradd yn Wrecsam o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn sgyrsiau diddorol gyda'u cyfoedion ac oedolion
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o rif ac maent yn defnyddio'u gwybodaeth yn llwyddiannus i gyfrifo problemau go iawn
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o e-ddiogelwch ac yn gwybod sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd
- mae presenoldeb yn dda ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o blith ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf
- mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, gyda llawer o brofiadau dysgu diddorol

Fodd bynnag:

- mae medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg mamiaith lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wedi'u tanddatblygu
- nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'u medrau ysgrifennu estynedig yn rheolaidd ar draws holl feysydd y cwricwlwm
- mae mwyafrif y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau llythrennedd Cymraeg
- nid yw gweithdrefnau asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 bob amser yn gyson ac yn gywir

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth bwrpasol sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned gyfan yr ysgol
- mae uwch dîm rheoli ar y cyd y ffederasiwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth
- mae'r llywodraethwyr yn gydwybodol ac yn gefnogol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o berfformiad yr ysgol
- mae partneriaethau cryf â rhieni yn gwella lefelau lles disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol bob amser ac mae diffyg trylwyredd ac eglurder ynddo'n gyffredinol
- nid yw prosesau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol i lywio hunanarfarnu yn ddigon cadarn
- mae rhan llywodraethwyr yng nghyfeiriad strategol a gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol wedi'i thanddatblygu i raddau
- nid yw'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol ffederal bob amser yn berthnasol i anghenion yr ysgol

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 2

A2 Parhau i wella safonau mewn Cymraeg ail iaith ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau cysondeb mewn addysgu ac asesu ar draws cyfnod allweddol 2

A4 Datblygu rôl strategol y corff llywodraethol

A5 Rhoi prosesau monitro trylwyr ar waith i nodi'r meysydd sydd angen eu gwella yn fwy cywir

A6 Sicrhau bod yr holl dargedau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn blaenoriaethu anghenion sy'n berthnasol i'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae asesiad athrawon o ddisgyblion pan fyddant yn dechrau'r dosbarth derbyn yn awgrymu bod medrau llythrennedd y mwyafrif ohonynt islaw'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. O'u pwynt cychwyn, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas yn unol â'u targedau unigol.

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando da gan bron pob un o'r disgyblion. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth Cymraeg yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llythrennedd. Mae hyn yn gryfder arbennig yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn glir am amrywiol bynciau a gallant gymryd rhan yn hyderus mewn sgyrsiau diddorol gyda'u cyfoedion ac oedolion fel ei gilydd, er enghraifft wrth drafod eu gwaith yn seiliedig ar 'Y Tri Mochyn Bach' yn Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth Saesneg yn defnyddio geirfa estynedig yn hyderus, er enghraifft wrth gymharu gwahanol fathau o bontydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n siaradwyr hyderus yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus i fynegi eu barn yn glir a thrafodant agweddau ar eu gwaith gan ddefnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc, gyda hyder cynyddol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n gyson at drafodaethau grŵp a dosbarth, er enghraifft wrth drafod cyfrifon banc gwahanol a rhoi rhesymau dros ac yn erbyn buddsoddi arian yn y modd hwn. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando'n dda ar farn pobl eraill ac yn dangos parch tuag at safbwyntiau gwahanol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'u hoedran a'u gallu. Maent yn ystyried atalnodi'n dda wrth ddarllen yn uchel ac maent yn darllen gyda rhugldר a goslef dda ar y cyfan. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau'n effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'r testun pan fyddant yn darllen yn Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu hoff awduron yn hyderus a rhoddant resymau penodol dros eu dewisiadau. Fodd bynnag, mae medrau darllen lleiafrif o ddisgyblion yn y dosbarth Cymraeg wedi'u tanddatblygu. Ar adegau, mae eu dealltwriaeth o'r testun yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau darllen uwch yn effeithiol wrth adalw gwybodaeth o amrywiaeth o destunau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, er enghraifft wrth ysgrifennu testun esboniadol am y fforest law.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu medrau ysgrifennu da at amrywiaeth o ddibenion, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu llythyron, adroddiadau, dyddiaduron a chyfarwyddiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir gan ddefnyddio'r eirfa a'r atalnodi priodol a ddysgont yn eu gwaith pwnc. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt

yn ysgrifennu darnau ysgrifennu estynedig yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau ysgrifennu priodol yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth sicr o wahanol arddulliau ysgrifennu ac maent yn addasu eu hysgrifennu'n dda at ddibenion gwahanol, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu dadl gytbwys o blaid ac yn erbyn defnyddio anifeiliaid yn y syrcas. Fodd bynnag, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn llai datblygedig mewn Cymraeg mamiaith. Mae geirfa Gymraeg lleiafrif o ddisgyblion yn gyfyngedig, ac mae eu cystrawen yn aneglur ar adegau. Nid yw mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu i'w potensial llawn mewn cyd-destun ehangach ar draws y cwricwlwm mewn Saesneg neu Gymraeg ail iaith. Ar y cyfan, mae ansawdd sillafu ac atalnodi gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn briodol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith yn amrywio ac mae'n anniben weithiau.

Ar y cyfan, mae agwedd disgyblion yn y ffrwd Saesneg tuag at ddysgu Cymraeg yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i amrywiaeth o gyfarwyddiadau, cyfarchion a chwestiynau syml yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio ymadroddion Cymraeg yn briodol wrth ymateb i gwestiynau syml, ond mae eu gallu i ysgrifennu Cymraeg wedi'i gyfyngu i ychydig ymadroddion sylfaenol. Mae medrau darllen tua hanner y disgyblion yn wan ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae lleiafrif yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r testunau a ddarllenant. Mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig yn eu gallu i siarad a darllen Cymraeg fel ail iaith wrth iddynt symud drwy gyfnod allweddol 2. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae mwyafrif yn ysgrifennu darnau byr o destun yn annibynnol ond yn defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau yn unig, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu deialog syml rhwng ffrindiau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n hyderus gyda rhifau hyd at 100, yn adio a thynnu rhifau dau a thri digid yn gywir. Defnyddiant fesurau safonol yn gywir ac yn cymharu darlleniadau'n dda. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gynyddol o ffracsiynau syml a siapiau tri dimensiwn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n gywir gan ddefnyddio arian ac amser ac mae llawer yn casglu ac yn defnyddio data yn hyderus i greu graffiau bar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus ar draws pob maes dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau datrys problemau yn gyson wrth iddynt symud ymlaen drwy'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd go iawn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn lluosi ac yn rhannu degolion yn gywir. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth dda o ffracsiynau, ac mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn cyfrifo canrannau'n hyderus. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o rif ac maent yn cymhwyso'u gwybodaeth yn llwyddiannus i gyfrifo problemau go iawn, er enghraifft pan fyddant yn cynllunio gwyliau gwersylla o fewn cyllideb benodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o bynciau. Mae llawer o ddisgyblion yn dethol a dehongli gwybodaeth o graffiau yn llwyddiannus wrth drafod faint o law sy'n disgyn ar gyfartaledd bob mis yn y fforest law.

Dros y blynyddoedd, mae’r nifer cymharol fach o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn gallu cael effaith fawr ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf mewn llythrennedd Cymraeg a Saesneg a datblygiad mathemategol, mae perfformiad yn y deilliant disgwyliedig wedi bod islaw’r cyfartaledd ar y cyfan ar gyfer ysgolion tebyg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn gyson, tra bod perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi amrywio’n fwy.

Ar y deilliant uwch na’r disgwyl yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad mewn llythrennedd Cymraeg a Saesneg wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi bod islaw’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn gyson. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau uwch na’r disgwyl, ar y cyfan, mae perfformiad yn dangos tuedd at i lawr yn y tri phwnc.

Mae nifer y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel iawn. O’r herwydd, mae hyn yn golygu bod cymharu eu perfformiad â pherfformiad disgyblion eraill yn annibynadwy.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i droi atynt am help a chymorth os oes ganddynt bryderon. Mae bron pob un o’r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i fyw’n iach trwy fwyta diet cytbwys a byw bywyd gweithgar. Mae llawer o ddisgyblion yn bwyta ffrwythau yn ystod amser egwyl ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau chwaraeon fel pêl-rwyd, rygbi tag ac osgoi’r bêl (dodge-ball).

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn gyfeillgar ac yn gwrtais i’w gilydd ac i oedolion fel ei gilydd. Maent yn cydweithio a chydweithredu’n dda mewn grŵp. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol da. Maent yn asesu ac arfarnu eu gwaith eu hunain ac yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o e-ddiogelwch a gwyddant sut i gadw’n ddiogel pan fyddant yn defnyddio’r rhyngrwyd.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyfrannu’n effeithiol at fywyd yr ysgol trwy gymryd rhan yng ngweithgareddau codi arian yr ysgol. Mae’r cyngor ysgol a’r pwyllgor eco yn cymryd eu rolau a’u cyfrifoldebau o ddifrif, er enghraifft trwy drefnu ‘Diwrnod Gwyrdd’ i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu a gweithgareddau arbed ynni. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cynaliadwyedd yn llwyddiannus. Mae wythnosau masnach deg yn helpu i gynyddu dealltwriaeth disgyblion o faterion yn y byd ehangach.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyfrannu’n rheolaidd ac yn effeithiol at amrywiol weithgareddau yn yr ysgol ac yn y gymuned. Mae disgyblion yn chwarae rhan amlwg yn y gymuned leol trwy gasglu sbwriel a chymryd rhan yn yr eisteddfod a’r carnifal lleol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb disgyblion yn cymharu'n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg ac mae wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn gyffredinol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n bodloni gofynion statudol. Mae profiadau ysgogol, wedi'u trefnu'n dda, yn ennyn diddordebau disgyblion yn effeithiol ac yn hybu dysgu annibynnol yn llwyddiannus, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae athrawon yn y ddau gyfnod allweddol yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol yn yr ardal awyr agored, sy'n datblygu medrau meddwl disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn pynciau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau mesur yn llwyddiannus wrth ddylunio teganau symudol yn eu pwnc dylunio a thechnoleg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau ysgrifennu estynedig ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn datblygu'r ddarpariaeth Cymraeg mamiaith a'r dimensiwn Cymreig yn dda trwy fwyafrif meysydd y cwricwlwm, ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith wedi'i datblygu cystal, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn effeithiol, er enghraifft pan fydd disgyblion yn dysgu am adeilad o Oes Fictoria yn eu bro ac yn ymweld â chestyll lleol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o'u cymuned ac o dreftadaeth Cymru yn llwyddiannus.

Mae cynlluniau athrawon yn amlinellu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), gan ddefnyddio amrywiaeth o raglenni, er enghraifft trwy recordio detholiad o ddyddiadur llongwr ar ei daith ar y Mimosa.

Mae'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n effeithiol at leihau gwastraff, er enghraifft trwy ailgylchu plastig ac arbed dŵr. Mae paneli solar ar adeilad yr ysgol, sy'n ymestyn gwybodaeth disgyblion am ynni adnewyddadwy a phwysigrwydd arbed ynni yn llwyddiannus.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n symbylu ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Lle mae'r addysgu yn effeithiol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio holi medrus i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion. Defnyddiant amrywiaeth eang o adnoddau a gwnânt ddefnydd arbennig o effeithiol o'r awyr agored i ymestyn profiadau dysgu disgyblion. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi diddorol sy'n annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd yn bwrpasol. Fodd bynnag, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion yn ddigon da

ac mae hyn yn golygu nad yw disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n ddigon da yn estynedig yn y Gymraeg nac yn Saesneg. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn cydweithio'n dda i alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gyflawni deilliannau priodol yn eu tasgau a'u gweithgareddau. Mae'r perthnasoedd hyn hefyd yn cefnogi medrau dysgu annibynnol disgyblion yn dda, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn adeiladol. Lle mae'r marcio ar ei orau mewn ychydig ddosbarthiadau, mae sylwadau ysgrifenedig athrawon yn cysylltu'n briodol â ffocws gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i weld pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r defnydd effeithiol ar asesu cymheiriaid a hunanasesu ar draws yr ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu yn briodol. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i wella'u gwaith yn unol â hynny.

Mae'r ysgol yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithdrefnau asesu perthnasol sy'n darparu darlun cywir o gynnydd disgyblion, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson ac yn gywir ar draws y ddau ddosbarth. Mae system briodol gan yr ysgol i olrhain cynnydd unigolion ac mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i gynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion pan fo'i angen. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn ddigon cadarn ac, o ganlyniad, nid yw eu cynnydd bob amser yn glir.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael gwybodaeth werthfawr am gynnydd a llwyddiant eu plant trwy gyfarfodydd rheolaidd â rhieni ac adroddiadau blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel ynghylch ymddygiad disgyblion. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol drwy wersi rheolaidd a gweithgareddau allgyrsiol, fel pêl-droed a phêl-rwyd, sy'n gwella'u lefelau iechyd a ffitrwydd. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau addas ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn darparu profiadau gwerthfawr sy'n cynnwys amrywiaeth o ymwelwyr i hybu datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac mae'n darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol, fel ymweliadau â'r eglwys leol.

Mae gwybodaeth a chyngor gwerthfawr am e-ddiogelwch ar gael i ddisgyblion a rhieni drwy gyfryngau cymdeithasol, cylchlythyron a thaflenni. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer fawr o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth i gynnig arweiniad, cymorth a gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn darparu cynlluniau addysg unigol manwl a phwrpasol gyda thargedau clir ar gyfer mesur cynnydd. Mae disgyblion targedig yn cael cymorth ychwanegol priodol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn trefnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd â rhieni i drafod cynnydd eu plentyn. Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus a gofalgar gan yr ysgol, sy'n hyrwyddo'i nodau a'i gwerthoedd yn dda. Mae pwyslais cryf ar werthoedd cadarnhaol fel cydraddoldeb, parch tuag at ei gilydd a chyfeillgarwch, a chaiff disgyblion eu hannog i feddwl am eraill. Enghraifft o hyn yw cyflwyno 'ffrindiau'r iard', lle mae disgyblion yn cefnogi ei gilydd.

Mae'r amgylchedd yn fywiog a chyffrous ac mae'n cefnogi disgyblion yn dda i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus a llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm a'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigir ar gael i'r holl ddisgyblion yn gyfartal.

Mae gan yr ysgol adnoddau digonol i gefnogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Mae coridorau a waliau ystafelloedd dosbarth yn arddangos enghreifftiau lliwgar a chreadigol o waith disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae enghreifftiau o arddangosfeydd dwyieithog, sy'n dathlu gwaith disgyblion a'u treftadaeth leol yn llwyddiannus.

Mae'r tir helaeth yn ymestyn dysgu a datblygiad corfforol disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft trwy eu defnydd rheolaidd ar y twnnel helyg, y llain arddio a'r ardal goedwig. Mae adnoddau da gan ardal allanol y Cyfnod Sylfaen ac mae staff yn ei defnyddio'n helaeth ar gyfer addysgu a dysgu. Mae hyn yn rhoi profiadau dysgu difyr i ddisgyblion.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth bwrpasol a gaiff ei rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned gyfan yr ysgol. Mae'n dyrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac mae ganddi rôl gadarnhaol yn hybu cydweithredu a gwaith tîm. Mae uwch dîm rheoli ar y cyd y ffederasiwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a'r cynllunio.

Mae rolau a chyfrifoldebau clir gan yr holl aelodau staff ac maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddiwyd. Maent yn cydweithio'n agos fel tîm. Mae'r uwch dîm arwain yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ffurfiol i drafod materion o ddydd i ddydd a materion yn ymwneud â gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon clir ar feysydd y mae angen eu gwella. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn cael trosolwg clir o safonau ar draws yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gydwybodol ac yn gefnogol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o berfformiad yr ysgol, ond mae eu cysylltiad â chyfeiriad strategol yr ysgol a'i gweithdrefnau hunanarfarnu wedi'i danddatblygu yn gymharol. Ers penodi cadeirydd newydd i'r llywodraethwyr, mae'r corff llywodraethol yn fwy effeithiol ac mae mwy o ffocws mewn cyfarfodydd. Mae llawer o lywodraethwyr yn mynychu digwyddiadau hyfforddi ac mae hyn yn dechrau gwella'u gallu i gyflawni eu rôl strategol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran cyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y

cwricwlwm. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau a deilliannau dysgu'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig mewn rhifedd a safonau lles. Mae systemau rheoli perfformiad yn briodol ac yn annog athrawon a chynorthwywyr addysgu i herio'u perfformiad eu hunain a chymryd rhan weithgar mewn cynllunio eu datblygiad proffesiynol personol eu hunain.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Ceir gweithdrefnau hunanarfarnu priodol sy'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella cyrhaeddiad. Mae'r rhain yn defnyddio amrywiaeth briodol o dystiolaeth uniongyrchol ac yn casglu barn disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid eraill yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau monitro bob amser yn ddigon arfarnol ac nid ydynt yn amlygu'n glir y meysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd i'r ysgol fesur ei pherfformiad ei hun yn gywir. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu bob amser yn arfarnol ac nid yw'n ddigon trylwyr ac eglur ar y cyfan. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn nodi pob maes allweddol y mae angen ei wella, fel safonau mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith, ac anghysondebau yng ngweithdrefnau'r ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae uwch dîm rheoli ar y cyd y ffederasiwn yn defnyddio'r wybodaeth o'r adroddiad hunanarfarnu yn briodol i bennu blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae nifer fawr o dargedau wedi'u hamlygu ac mae'r rhain yn cynnwys meini prawf llwyddiant perthnasol, meysydd cyfrifoldeb, amserlenni a chyllid. Mae cyfrifoldebau am welliannau wedi'u dirprwyo i aelodau'r ysgolion sydd wedi'u ffedereiddio. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr holl staff berchenogaeth glir ar gynllunio ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r rhain yn flaenoriaethau i'r tair ysgol yn y ffederasiwn ac nid yw lleiafrif yn berthnasol i'r ysgol hon. O ganlyniad, nid oes gan yr ysgol flaenoriaethau clir ar gyfer gwella, yn enwedig mewn perthynas â safonau.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, mae safonau mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith yn feysydd i'w gwella o hyd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol amrywiaeth eang o bartneriaethau gweithio sy'n cyfoethogi ac yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Ceir partneriaeth gryf â rhieni, sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon weithgar yn codi symiau sylweddol o arian, er enghraifft i brynu adnoddau llythrennedd. Caiff rhieni wybodaeth reolaidd am fywyd yr ysgol a dysgu disgyblion trwy amrywiaeth o ffyrdd priodol, gan gynnwys cylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol.

Mae cyfraniad disgyblion at weithgareddau cymunedol yn cyfoethogi eu profiadau dysgu yn llwyddiannus. Mae cefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau lleol, fel Carnifal ac Eisteddfod Glyn Ceiriog, yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion yn dda.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda â grŵp meithrin lleol, sy'n cyfarfod yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym pan fyddant yn dechrau yn

y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r ysgolion ffederal a thu hwnt i rannu arfer dda a datblygu portffolios ar gyfer cymedroli a safoni gwaith disgyblion. Mae trefniadau pontio sefydledig yn sicrhau bod disgyblion yn hyderus i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio athrawon a chynorthwywyr addysgu'n dda i fodloni anghenion disgyblion. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn defnyddio'u medrau a'u harbenigedd penodol yn effeithiol, er enghraifft wrth gyflwyno addysg gorfforol i'r tair ysgol o fewn y ffederasiwn. Mae'r ysgol yn defnyddio staff cymorth yn dda i ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella ac i godi safonau'n effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon ac yn sicrhau bod cyllid yn cyfateb i'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn briodol i gefnogi disgyblion agored i niwed.

Ceir gweithdrefnau rheoli perfformiad pwrpasol i sicrhau bod yr holl staff yn manteisio ar raglenni datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol, yn gysylltiedig â'u hanghenion canfyddedig a blaenoriaethau'r ysgol. Caiff yr holl athrawon amser cynllunio, paratoi ac asesu priodol bob wythnos ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y deilliannau a gyflawnir gan lawer o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol o fewn cymunedau dysgu proffesiynol gyda chlystyrau amrywiol o ysgolion. Mae hyn yn cyfrannu at wella medrau ysgrifennu a llawysgrifen disgyblion.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan yr ysgol a'r deilliannau a gyflawnir gan y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6652139 - Ysgol Cynddelw**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 103 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 9 | 7 | 14 | 20 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 77.8 | 71.4 | 71.4 | 85.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | 7 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | 85.7 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | * | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | 42.9 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | * | * | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | 7 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 66.7 | 71.4 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 50.0 | 0.0 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 7 | 14 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 71.4 | 85.7 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.1 | 28.6 | 28.6 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 7 | 14 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 100.0 | 92.9 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 44.4 | 57.1 | 42.9 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6652139 - Ysgol Cynddelw**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 103 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 16 | 11 | 12 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 100.0 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 11 | 12 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 45.5 | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 6 | 6 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 66.7 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 11 | 12 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 83.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 45.5 | 41.7 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 11 | 12 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 43.8 | 72.7 | 50.0 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 50 | 49<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 50 | 48<br>96%<br>92% | 2<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 50 | 45<br>90%<br>97% | 5<br>10%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 50 | 46<br>92%<br>97% | 4<br>8%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 50 | 49<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 50 | 48<br>96%<br>96% | 2<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 50 | 49<br>98%<br>99% | 1<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 50 | 50<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 50 | 32<br>64%<br>91% | 18<br>36%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 50 | 46<br>92%<br>95% | 4<br>8%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 50 | 44<br>88%<br>77% | 6<br>12%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 49 | 46<br>94%<br>84% | 3<br>6%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don’t know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 7<br>54% | 5<br>38% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 10<br>77% | 2<br>15% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 8<br>62% | 5<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 7<br>54% | 5<br>38% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 12 | 6<br>50% | 4<br>33% | 2<br>17% | 0<br>0% | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 8<br>62% | 4<br>31% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 7<br>54% | 3<br>23% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 6<br>50% | 5<br>42% | 1<br>8% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 7<br>54% | 5<br>38% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 7<br>54% | 6<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 13 | 5<br>38% | 6<br>46% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 13 | 5<br>38% | 6<br>46% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 8<br>62% | 3<br>23% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 12 | 5<br>42% | 4<br>33% | 3<br>25% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 12 | 6<br>50% | 5<br>42% | 1<br>8% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 5 | 4<br>80% | 1<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 6<br>46% | 5<br>38% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 6<br>46% | 5<br>38% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Bleddyn | Arolygydd Cymheiriad |
| Olwen Corben | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.